**ADRODDIAD I'R CABINET**
26 TACHWEDD 2013

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2013)

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2013) o'r Gyllideb Refeniw, a gofynnir i'r Cabinet ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, ac ystyried yr argymhellion gerbron, cyn penderfynu ar gamau priodol i reoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol.

---

**Cyflwyniad / Cefndir**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2013/14.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2013/14, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

Yn dilyn gorwariant / diffyg incwm yn 2012/13, mae sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth ac Incwm Parcio wedi sefydlogi eleni. Fodd bynnag, mae pryder am ambell gyllideb (£ isod gorwariant net 2013/14):

- **Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwastraff £536k** (a pwysau ar gyllideb 2014/15)
- **Darparu a Hamdden – Staff Cartrefi £290k a Gwerthiannau Hamdden £76k**
- **Addysg – Diswyddo ac Ymddeol Cynnar mewn Ysgolion £259k**

Nodaf fod gorwariant hefyd yn Tai (Grantiau) a Morwrol (Hafan), ond mae camau ar droed i ddelio gyda'r materion rheiny.

Yn gwrthbwyso'r pryderon uchod, mae peth hyblygrwydd ar rai cyllidebau corfforaethol, sef Treth Cyngor (£520k), a Banc Heritable (£221k).

Sylwer o'r crynhoad yn Atodiad 1 fod sawl Adran yn gorwario eleni. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi defnyddio adnoddau corfforaethol er mwyn digolledu rhai Adrannau. Erbyn hyn, gan fod setliad heriol 2014/15 yn ein gyrru i ddefnyddio balansau i bontio'r gyllideb, mae ein hyblygrwydd corfforaethol yn fwy cyfyngedig nac erioed. Felly, mae amheuaeth cryf os byddwn yn digolledu'r cwbl o orwariant unrhyw Adrannau, a lle'n briodol disgwylir gweld tystiolaeth o gamau rheolaethol sy'n lleihau'r gorwariant yn ystod gweddill 2013/14.

## Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol 18 Chwefror 2014 ar yr adolygiad 3ydd chwarter.

---

## Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

Fel mae'r esgid yn gwasgu, mae rheolaeth gyllidol gadarn yn mynd yn fwy anodd ond hefyd yn fwy pwysig. Fel y noda'r adroddiad, mae natur y setliad tebygol ar gyfer 2014/15 yn golygu na fydd gennym y math o hyblygrwydd fu gennym yn y gorffennol i ddigolledu mewn sefyllfaoedd o orwariant. Mae'n amlwg felly bod pwysau mawr ar Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran i gydbwyso gwariant rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

## Atodiadau

Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.